# Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




Mae'r adroddiad hawdd ei ddarllen hwn yn egluro'r canfyddiadau o farn pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn derbyn gofal a chymorth.




Mae hyn yn rhan o Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Gelwir y Gwerthusiad yn astudiaeth IMPACT.

Cewch ragor o wybodaeth am y Ddeddf mewn ffurf hawdd ei ddarllen ar: [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru - fersiwn Hawdd-ei-Dddarllen (llyw.cymru)]

## Beth ydy'r astudiaeth IMPACT?




Mae'r astudiaeth IMPACT yn ystyried pa mor dda mae'r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru.

Mae'n gwneud hyn drwy'r pum egwyddor yn y Ddeddf:



1. Atal



2. Llesiant



3. Llais a Rheolaeth



4. Cyd-gynhyrchu



5. Gwaith Aml-Asiantaethol

Mae'n gwneud hyn hefyd drwy edrych ar bum grŵp:



1. Defnyddwyr gwasanaeth



2. Gofalwyr




3. Teuluoedd a Chymunedau



4. Gweithwyr

5. Sefydliadau

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.



Helpodd hyn ni i ddeall eu barn am y Ddeddf.

Fe’n helpodd hefyd i ddeall eu disgwyliadau a’u profiadau o ofal a chymorth o dan y Ddeddf.




Fe wnaethon ni siarad â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ledled Cymru. Gwnaed hyn i ddeall a ydy’r Ddeddf yn gweithio’n dda.

I wneud hyn, defnyddiwyd:




1. Arolwg a anfonwyd at sefydliadau a rhwydweithiau ledled Cymru. Gofynnwyd iddyn nhw rannu'r arolwg â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.



2. Cyfweliadau a thrafodaethau grŵp gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

3. Grŵp Facebook i bobl siarad â ni'n ddiogel.



Yn gyfan, cawsom farn 170 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Digwyddodd hyn i gyd rhwng mis Mai a mis Medi 2020, yn ystod y pandemig COVID-19

## Beth wnaethon ni ganfod?

1. Y berthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol



Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod wedi cael mwy o sylw gan weithwyr proffesiynol ers y Ddeddf. Teimlai rhai fod ganddyn nhw well perthynas â'u gweithiwr cymdeithasol. Golyga hyn fod yna well perthynas i rai pobl. Roedd hyn yn bositif iddyn nhw.



Dywedodd pobl eu bod wedi blino gorfod mynd ar ôl ac ymladd am gefnogaeth. Mae hyn yn golygu bod angen mwy o waith fel bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw ac yn ymateb iddyn nhw.



Dywedodd pobl eu bod yn cael eu hanwybyddu weithiau os nad ydyn nhw mewn argyfwng.

Mae hyn yn golygu bod angen i ofalwyr wybod, os ydyn nhw'n gofyn am gymorth, y bydd rhywun yn gwrando arnyn nhw ac yn ymateb iddyn nhw.

## 2. Canlyniadau i bobl




Dwedodd pobl wrthon ni nad oedd eu bywyd yn ffitio i flychau canlyniadau destlus.

Mae hyn yn golygu bod gan wahanol bobl ganlyniadau gwahanol y maen nhw am eu cyflawni. Ond dydy cymorth ddim bob amser yn hyblyg i helpu pobl i gael y canlyniadau y maen nhw'n ddymuno.



Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod yn teimlo nad oedd eu hanghenion bob amser yn cyd-fynd â'r hyn oedd yn cael ei gynnig. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl wedi dewis peidio â chael cymorth.

## 3. Cael eich llais wedi ei glywed



Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod am gael eu cynnwys yn y sgwrs a phenderfyniadau am eu cymorth. Nid hyn oedd eu profiad bob amser.

Mae hyn yn golygu bod angen i wahanol weithwyr weithio i sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys cymaint â phosibl.




Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod yn teimlo’n ansicr ynghylch eu hawliau o dan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu nad ydy pobl bob amser yn gwybod sut i herio penderfyniadau am eu gofal a’u cymorth.



Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod yn cael trafferth i gael cymorth yn y Gymraeg.
Mae hyn yn golygu bod angen mwy o waith fel bod pobl yn cael cymorth yn eu hiaith eu hunain.

4. Disgwyliadau a phrofiadau



Dywedodd pobl wrthyn ni nad oedd eu disgwyliadau o ran eu gofal a’u cymorth yn cael eu bodloni bob amser.
Mae hyn yn golygu bod sgyrsiau agored a gonest am yr hyn i'w ddisgwyl yn bwysig. Fe fyddan nhw'n helpu pobl i ddeall yn well yr hyn y gallan nhw ei ddisgwyl.



Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod yn teimlo’n unig yn ystod pandemig COVID-19. Doedd gan bawb ddim rhwydweithiau cymorth da i'w helpu. Mae hyn yn golygu bod angen i weithwyr feddwl am ffyrdd newydd o gefnogi pobl. Mae hyn yn arbennig ar gyfer pobl nad oes ganddyn nhw rai eraill i'w cefnogi.



Yn ôl rhai, dydy’r Ddeddf ddim wedi cwrdd â'u disgwyliadau.
Mae hyn yn golygu bod gwahaniaeth rhwng eu profiadau a'r hyn y gobeithiwyd y byddai'r Ddeddf yn ei gyflawni.

## Beth ydy ein casgliadau?

Rydyn ni'n cynnig ateb i 3 chwestiwn:

1. Pa mor dda y mae pobl yn teimlo bod gweithwyr ac asiantaethau'n cydweithio i ddarparu gofal a chymorth gwirioneddol dda iddyn nhw?



Ledled Cymru, mae gwahaniaethau'n y ffordd y mae asiantaethau'n cydweithio wrth ddarparu gofal a chymorth. Nid oedd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu gweld yn cydweithio'n dda iawn o gwbl.



Mae pobl yn meddwl bod cymorth y sector gwirfoddol yn bwysig. Ond dydy eu pwysigrwydd ddim yn cael ei gydnabod yn llawn gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.




Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eisiau i weithwyr proffesiynol roi arweiniad a gwybodaeth glir iddyn nhw.



Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gwybod pa mor bwysig ydy hi bod pobl yn cydweithio'n dda i ddarparu gofal a chymorth da iawn.

2. I ba raddau mae pobl yn teimlo'u bod yn rhan o’r penderfyniadau am eu gofal a’u cymorth?



Roedd rhai pobl yn teimlo bod rhai'n gwrando arnyn nhw a'u cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a chymorth. Ond y rhan fwyaf o bobl yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnyn nhw na'u cynnwys.




Mae pobl eisiau cymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am eu gofal a chymorth.

3. Pa effaith mae’r Ddeddf wedi’i chael ar ansawdd bywyd rhai'n derbyn gofal a chymorth?



Gall gymryd amser hir i bethau newid er gwell.
Ond ni chafodd y rhan fwyaf o bobl lawer iawn o brofiadau cadarnhaol.



Pan oedd effeithiau cadarnhaol yn digwydd, roedden nhw'n aml yn deillio o gydberthnasau da â gweithwyr proffesiynol.